Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Alltraeth Gwastadeddau Rhyl
Canllawiau i Ymgeiswyr

Dylid darllen y nodiadau hyn cyn cyflwyno cais i Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Alltraeth Gwastadeddau Rhyl. Hefyd mae'n ddoeth edrych ar y nodiadau hyn yn ystod y broses ymgeisio.

Rydym yn argymell cysylltu â gynrychiolydd gronfa CGGC cyn llenwi neu gyflwyno cais.

Am ragor o help neu gyngor, cysylltwch â:

Aled Roberts: 01492 534091, e-bost: aledroberts@cvsc.org.uk

Beth yw Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Alltraeth Gwastadeddau Rhyl?

Mae Fferm Wynt Alltraeth Gwastadeddau Rhyl, a weithredir gan Innogy Renewables UK Limited wedi darparu cyllid ar gyfer prosiectau cymunedol ar draws rhannau o arfordir Gogledd Cymru.

Fe lansiodd y gronfa yng Nghonwy yn 2009 gyda lefel sylfaenol o £75,000 ac mae wedi'i gysylltu mynegai bob blwyddyn yn unol â chwyddiant. Bydd y gronfa ar gael bob blwyddyn drwy gydol oes weithredol y fferm wynt.

Yng Nghonwy mae'r gronfa'n cefnogi cymunedau o Fochdre yn y gorllewin hyd at Fae Cinmel yn y dwyrain. Mae'r gronfa nawr yn cael ei gweinyddu gan CGGC ar ran o Fferm Wynt Alltraeth Gwastadeddau Rhyl.

Bu ceisiadau i'r gronfa yn cael eu asesu gan banel gwneud penderfyniadau o gynrychiolwyr cymunedol

Crynodeb o'r gronfa

Bydd gofyn i ymgeiswyr am grantiau rhwng £2,000 a £10,000 i gyflwyno ffurflen gais syml.

GRANTIAU'N CYCHWYN O £2.000



UCHAFSWM GRANT £10,000

Bydd yn ofynnol i'ch cais gefnogi cyflawni o leiaf un o pedwar thema'r gronfa:

Cryfhau eich gymuned ar gyfer y dyfodol

Cynnwys eich cymuned ac adeiladu ysbryd cymunedol

Wella bywydau pobl lleol

Creu cyfleusterau lleol mwy dichonadwy

Dylai pob cais cefnogi thema drawsbynicol y gronfa:

Cyflwyno Gwerth arian

Mae'r wardiau arfordirol canlynol yn cael eu cynnwys yn y gronfa:

• Llandrillo yn Rhos • Mochdre • Rhiw • Glyn • Eirias
• Colwyn • Llysfaen • Llanddulas • Pentre Mawr
• Gele • Abergele/Pensarn • Tywyn a Bae Cinmel • Mostyn

Sefydliadau Cymwys

Cyn gwneud cais am grant, bydd rhaid i sefydliadau sydd yn yr ardal benodol a fydd yn elwa* fod â chyfansoddiad ysgrifenedig, cyfres o reolau neu ddogfen lywodraethu, a bydd rhaid iddynt fod â chyfrif mewn banc neu gymdeithas adeiladu (yn enw'r sefydliad) gyda dau lofnodwr o leiaf wedi'u pennu.

Dyma'r Sefydliadau Cymwys a gaiff wneud cais am gyllid:

- Grwpiau gwirfoddol, cymunedol
- Cynghorau Plwyf / Cymuned / Tref
- Mentrau cymdeithasol (gan gynnwys undebau credyd, cydweithfeydd, cwmnïau cymdeithasol, mentrau sy'n eiddo i'r gymuned, cwmnïau buddiannau cymunedol ac ymddiriedolaethau datblygu) ar yr amod eu bod yn gweithredu ar sail ddielw

Eithriadau

Ni fydd grantiau ar gael ar gyfer y canlynol:

- Ni all sefydliadau heb ddau lofnodwr (ni ddylent fod yn perthyn) ar gyfer pob trafodiad ariannol wneud cais
- Sefydliadau masnachol
- Unrhyw waith a ystyrir fel cyfrifoldeb statudol, fel gwasanaethau trafnidiaeth wedi'u hamserlennu a gwaith ar briffyrdd cyhoeddus a meysydd parcio cyhoeddus
- Prosiectau crefyddol eu ffocws, prosiectau sy'n cefnogi ymgyrch neu achos gan blaid wleidyddol, neu brosiectau a fydd yn dwyn anfri ar y cyllid neu'r cyllidwr
- Cyllid am yn ôl, h.y. prosiectau sydd wedi'u cwblhau eisoes, boed wedi talu amdanynt ai peidio
- Creu cronfa neu warged, i'w ddosbarthu ai peidio
- Cwmnïau Buddiant Cymunedol cyfyngedig drwy gyfrannau
- Costau cysylltiedig â 'Throsglwyddo Asedau' o Awdurdodau Lleol (h.y. costau cyfreithiol, costau ymarferoldeb ac ati.) Er hynny, ar ôl trosglwyddo'r Ased, mae'r grŵp sy'n gyfrifol am ei ddymunoldeb yn gymwys i wneud cais am grant o'r gronfa

Llenwi'r Ffurflen Gais

Adran 1: Amdanoch chi/eich sefydliad



- Beth yw eich rôl yn eich grŵp? (e.e. Ysgrifennydd, Cadeirydd, Trysorydd ac ati)

- Ydych chi'n rhan o sefydliad ehangach/aelod o unrhyw gorff rheoli cenedlaethol neu elusen?

- Pa fath o sefydliad ydych chi? (e.e. Clwb/cymdeithas wirfoddol, clwb/sefydliad ieuenctid, elusen, cyngor tref/cymuned, grŵp amgylcheddol ac ati)

Adran 2: Am eich prosiect



- Dywedwch wrthym am eich prosiect. Beth ydych chi eisiau ei wneud? Pam ydych chi eisiau ei wneud? Os byddwch yn ymgymryd â'r prosiect, pa wahaniaeth fydd yn ei wneud yn eich cymuned / i'ch grŵp / yr amgylchedd / yr adeilad / i'ch aelodau?

- Dim ond drwy ddatgan yn glir beth rydych eisiau ei wneud fydd y panel yn deall eich prosiect yn iawn.

- Mae'n rhaid i chi dynnu sylw at fanteision y cynllun arfaethedig. Dim ond wedyn y gellir asesu eich cais o ran gwerth am arian.

- Peidiwch ag anghofio bod yn realistig am eich dyddiadau dechrau a gorffen. Yn aml iawn mae materion fel gwaith cynllunio a saernïol yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl.

- Cewch ysgrifennu mewn paragraffau, pwyntiau bwled neu barhau ar ddalen arall o bapur. Ceisiwch fod yn gryno a chadw at y prif bwyntiau.

- Pa dystiolaeth sydd gennych chi bod angen y prosiect? Oes gennych chi unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich barn? Sut byddai'r cyllid hwn yn eich helpu chi i gyrraedd eich nod?

- Pa wahaniaeth fydd y prosiect yn ei wneud? (e.e. prynu offer newydd yn galluogi i ni sefydlu dosbarth newydd i famau a phlant bach; bydd y prosiect yn galluogi ailagor yr adeilad gwag hwn fel neuadd i Guides a Sgowtiaid; bydd y prosiect yn creu 30 o aelodau newydd i'r clwb/swydd newydd ac ati).

Adran 3: Manylion Ariannol



- Mae'r adran hon yn delio â chostau'r prosiect.
- Bydd angen 3 dyfyn-bris ar gyfer unrhyw eitem sy'n costio mwy na £5,000.
- Dylech restru pob eitem / elfen rydych yn ceisio cyllid ar ei chyfer.
- Cofiwch gynnwys y gost net, y TAW a chyfanswm y gost.
- Nodwch yn glir a yw eich sefydliad yn gallu adfer y TAW.
- Os ydych yn bwriadu adfer y TAW, dim ond cost net pob eitem ddylech ei nodi.
- Anogir ymgeiswyr i chwilio am gyllid cyfatebol ar gyfer eu prosiectau. Er hynny, nid yw hyn yn orfodol ac nid oes swm penodol o gyllid cyfatebol yn ofynnol.
- Rhestrwch yr holl gyllidwyr / cyllidwyr posib eraill, wedi neu heb eu cadarnhau, a'r swm yr ydych wedi gwneud cais amdano ganddynt.
- Yn olaf, ar waelod yr adran hon, nodwch faint o grant rydych chi'n gwneud cais amdano.

Gwybodaeth Werthfawr Arall:

- Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Alltraeth Gwastadeddau Rhyl yn gallu cefnogi prosiectau cyfalaf a refeniw.
- Bydd rhaid i grwpiau newydd heb gyfrifon wedi'u harchwilio gyflwyno datganiad banc diweddar. Mae disgwyl i ymgeiswyr ddangos cefnogaeth gymunedol i brosiect drwy gyfrwng llythyrau neu negeseuon e-bost annibynnol.
- Os yw eich prosiect yn cynnwys costau adeiladu, gwnewch yn siŵr bod y caniatâd cynllunio a rheoli adeiladu priodol yn ei le cyn i chi gyflwyno'r cais i'r panel.
- Cyn i chi gyflwyno eich cais wedi'i gwblhau, darllenwch restr wirio'r prosiect ar dudalen olaf y ffurflen

Ar ôl derbyn unrhyw grant:

Bydd y person cyswllt yn derbyn llythyr sy'n amlinellu penderfyniad y panel. Rhaid i'r person cyswllt wneud copi o'r llythyr a'i ddychwelyd i CGGC. Mae'r copi ar gyfer eich cofnodion chi. Os yw eich cais yn llwyddiannus, rhaid i chi gytuno i'r canlynol:

- Cyflwyno derbynebau am yr holl wariant
- Cyflwyno adroddiadau yn unol â phob cais (bydd y rhain yn cyfateb i faint a chymhlethdod eich prosiect)
- Defnyddio'r arian yn union fel y nodwyd yn eich cais oni bai eich bod wedi derbyn cytundeb ymlaen llaw gan CGGC
- Rhoi cyhoeddusrwydd i Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Alltraeth Gwastadeddau Rhyl

COFIWCH SIARAD Â SWYDDOG YN CCGC CYN CYFLWYNO EICH CAIS.

Datganiad GDPR

Bydd Cefnogaeth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CCGC), sydd yn gweithredu ar ran Cronfa Buddsoddiad Cymunedol Gwastadeddau Rhyl, yn defnyddio'r wybodaeth yn eich dogfen ymgeisio, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, i brosesu eich cais am gyllid. Mae hyn yn cynnwys rhannu'r wybodaeth yn llawn gyda'n partneriaid (FLVC, DVSC, RWE, Cynghorau Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Conwy ynghyd ag aeloadau'r panel ac unrhyw asesydd annibynnol fydd yn cael ei gontractio gennym). Bydd yr wybodaeth yn cael ei rhoi mewn bas data sy'n cael ei ddefnyddio gan CCGC a'i bartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru (mae rhagor o wybodaeth a'n hysbysiad preifatrwydd ar gael yn https://thirdsectorsupport.wales/privacy). Bydd y wybodaeth yn cael ei gadw am gyfnod prosiect Gwynt y Môr, ac wedyn bydd yn cael ei dinistrio'n ddiogel.

Dychwelwch y Ffurflen Gais wedi'i llenwi a'r dogfennau ategol i:

grants@cvsc.org.uk neu CCGC, 7 Ffordd Rhiw, Bae Colwyn, Conwy. LL29 7TG

Am ragor o help neu gyngor, cysylltwch â'r:

aledroberts@cvsc.org.uk neu 01492 523845

I gael gwybod mwy am sut mae Cronfa Gymunedol Gwastadeddau Rhyl yn cael effaith yn lleol ewch i'r dudalen benodol ar **@NWOffshoreCF**